

Rhif: WG24130



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Gorchmynion Statudol o dan Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Chwefror 2015

Trosolwg

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar nifer o orchmynion statudol o dan Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014:

- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 – sy'n holi barn am y gofynion addasrwydd arfaethedig ar gyfer cartrefu pobl o dan y Ddeddf;
- Rheoliadau Digartrefedd (Bwriad) (Categoriâu Penodol) (Cymru) – sy'n pennu'r broses y bydd angen i Awdurdod Lleol ei dilyn er mwyn rhoi sylw i fwriad wrth ystyried ceisiadau digartrefedd; a
- Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) 2015 – sy'n pennu'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o benderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Sut i ymateb

A fydddech cystal ag ymateb drwy lenwi'r holiadur ar gefn y ddogfen hon a'i hanfon at HomelessnessRegsConsultation2015@wales.gsi.gov.uk

Neu

Tîm Polisi Digartrefedd
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae dogfen print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael drwy wneud cais.

Mae rhagor o fanylion am y Ddeddf ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=cy

www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=en

Hefyd, mae gwybodaeth ychwanegol am y Ddeddf, gan gynnwys y newidiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac Aelodau eraill y Cynulliad drwy'r broses graffu, ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

www.senedd.assemblywales.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=8220

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Tîm Polisi Digartrefedd
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ebost: HomelessnessRegsConsultation2015@wales.gsi.gov.uk

Diogelu Data

Sut y caiff y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

CYNNWYS

Crynodeb

Tudalen 4

Cyflwyniad

Tudalen 5

Cefndir Deddfwriaethol

Tudalen 6

Ffurflen Ymateb

Tudalen 8

Crynodeb

Cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014.

Mae Rhan 2 y Ddeddf yn cyflwyno system newydd i fynd i'r afael â digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd, gan gynnwys llawer mwy o bwyslais ar rwystro digartrefedd yn y lle cyntaf. Cafodd hyn ei sicrhau drwy gryfhau rôl rhwystro yn y dyletswyddau sydd gan Lywodraeth Leol i bobl ddigartref.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar yr offerynnau statudol sy'n gysylltiedig â Rhan 2.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Rydym yn croesawu eich safbwyntiau a darperir ffurflen ymateb yng nghefn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau yn gofyn am eich barn am yr offerynnau statudol fydd yn rhan o'r gweithdrefnau i gefnogi pobl ddigartref.

Cyflwyniad

Deddf Tai (Cymru) 2014

Pasiwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a derbyniwyd Cydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014. Mae Rhan 2 y Ddeddf yn cyflwyno system newydd i ymdrin â digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd.

Prif nodweddion Rhan 2 y Ddeddf yw:

- Sicrhau mwy o ganolbwyntio hyd yn oed ar rwystro digartrefedd yn y lle cyntaf.
- Ymestyn hawl nifer o ymgeiswyr a fyddai â hawl i gyngor a chymorth yn unig o dan y ddeddfwriaeth bresennol.
- Ysgafnhau y baich ar lety yr awdurdodau lleol drwy ganiatáu i awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau ym maes digartrefedd mewn llety rhent preifat addas.
- Mwy o ddyletswydd ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau ym maes digartrefedd.

Cefndir Deddfwriaethol

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

Mae Adran 59 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, nodi:

- Amgylchiadau ble nad yw llety yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer person, a,
- Materion i'w hystyried neu eu diystyru wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person.

Roedd addasrwydd llety yn bwnc trafod yn ystod proses graffu y Bil Tai (Cymru). Mae'r offeryn drafft statudol hwn yn ei gwneud yn ofynnol i:

- Gadw'r meini prawf presennol fel a bennir yn Neddf Tai 1996 sy'n gysylltiedig â lleoliad, iechyd, cyflogaeth, anghenion gofal ac elfennau personol eraill;
- Cadw agweddau ar y Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006, sy'n pennu safonau penodol ar gyfer llety a rennir a llety gwely a brecwast;
- Mabwysiadu y meini prawf sy'n gysylltiedig â safonau corfforol a gofynion diogelwch sy'n debyg i'r rhai hynny yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Lloegr) 2012;
- Cyfeirio at Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 mewn perthynas â safonau yn y sector rhentu preifat;
- Eithrio Awdurdodau Lleol sydd heb ddewis arall ond defnyddio llety sy'n is na'r safon mewn achosion o argyfwng fel llifogydd;
- Eithriad os bydd yr ymgeisydd sydd am dderbyn cymorth yn dewis aros mewn llety sydd o safon is na'r hyn a bennwyd; ac
- Eithriad ar gyfer llochesi camdrin domestig, ond dim ond os ydynt yn cyrraedd y safon sylfaenol, ac os bydd yr ymgeisydd wedi derbyn cynnig o lety addas.

Rheoliadau Digartrefedd (Bwriad) (Categoriâu Penodol) (Cymru) 2015

Mae Adran 78 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, yn ôl y rheoliadau, nodi categori neu gategoriâu o ymgeiswyr y gallai Awdurdodau Lleol ddewis eu hystyried wrth wneud penderfyniad a yw rhywun yn ddigartref yn fwriadol.

Mae Adran 78 y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddefnyddio prawf bwriad, ond mae'n rhaid iddynt fod wedi nodi categorïau yn gyntaf ar gyfer ymgeiswyr a fyddai'n derbyn y prawf.

Er y byddai'r prawf ond yn berthnasol i'r ymgeiswyr hynny a fyddai'n cael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol, mae'r rheoliadau drafft yn bwriadu defnyddio'r categorïau angen blaenoriaethol o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wrth awgrymu y categorïau y gall Awdurdod Lleol ystyried prawf bwriad.

Mewn perthynas â'r broses, mae'r rheoliadau drafft yn cynnig y canlynol:

- Cyfnod o rybydd o 14 diwrnod cyn i'r Awdurdod allu newid eu categorïau;
- Cyfyngu Awdurdodau i ddim ond dau gyfle y flwyddyn i newid eu categorïau; a
- Sicrhau y byddai'r categorïau prawf bwriad ond yn berthnasol i'r ymgeisydd ar y dyddiad y gwnaethpwyd y cais/cyflwyniad gwreiddiol, ac na fyddai unrhyw newidiadau yn cael effaith arnynt oni bai eu bod o fantais i'r ymgeisydd.

Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) 2015

Mae Adran 86 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn caniatáu i Weinidogion wneud darpariaeth drwy reoliadau dim ond mewn cysylltiad â'r hawl i ofyn am adolygiad (adran 85).

Mae'r rheoliadau drafft arfaethedig yn cynnwys ac yn atgyfnerthu gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes, gan ehangu fel y bo angen i gynnwys y dyletswyddau ychwanegol sy'n cael eu cynnwys o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r rheoliadau presennol (a wnaethpwyd yn 1999) hefyd yn cynnwys cyfeiriad at adolygiadau o benderfyniadau dyrannu penodol. Ers i'r pŵer galluogi i wneud y rheoliadau adolygu dyraniadau gael ei ddiddymu yn 2002, mae'r rheoliadau newydd wedi'u cyfyngu i adolygiadau o benderfyniadau digartrefedd.

Ffurflen Ymateb

Enw:

Ebost:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Sefydliad
(os yn berthnasol)

Dychwelyd y ffurflen hon

Y ddyddiad cau ar gyfer atebion yw **26 Chwefror 2015**

Anfonwch y ffurflen hon atom wedi'i chwblhau drwy e-bost at:
HomelessnessRegsConsultation2015@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post at:
Tîm Polisi Digartrefedd
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, nodwch bwnc eich e-bost fel
Offerynnau Statudol - Deddf Tai (Cymru) 2014, Rhan 2

Cyhoeddi ymatebion

Mae'n bosib y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi - ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer bydd enw a chyfeiriad (neu rhan o'r cyfeiriad) yr awdur yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymateb, gan bod hyn yn helpu i ddangos bod yr ymarfer ymgynghori wedi ei gynnal yn iawn.

Os fyddai'n well gennych inni beidio â chyhoeddi eich enw a'ch cyfeiriad, ticiwch yma:		
----------------------------------------------------------------------------------------	--	--

Rheoliadau Digartrefedd (Bwriad) (Categoriâu Penodol) (Cymru) 2015

1. Ydych chi'n cytuno â'r categorïau a nodwyd gan yr ymgeisydd yn Rhan 1 y Rheoliadau?

Ydwyf

Nac ydwyf

Os nac ydych, pam?

2. A yw'r gweithdrefnau ar gyfer ystyried Prawf Bwriad sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 yn briodol?

Ydynt

Nac ydynt

Os nad ydynt, pam?

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

3. Ydych chi'n cytuno â'r materion ychwanegol sydd i'w hystyried o dan Rhan 1 y Gorchymyn drafft?

Ydwyf

Nac ydwyf

Os nad ydwyf, pam?

4. A yw'r gofynion penodol yn Rhan 2 (sy'n nodi'r amgylchiadau y gellir ystyried llety yn anaddas) yn briodol?

Ydynt		
Nac ydynt		
Os nad ydynt, pam?		

5. A yw'r eithriadau i'r gofynion penodol yn briodol (gweler Erthyglau 7 ac 8)?

Ydynt		
Nac ydynt		
Os nad ydynt, pam?		

6. O ystyried Rhan 2, mae Erthygl 8 yn nodi nifer o derfynau amser pan fydd yn rhaid cynnig llety arall. A ydynt yn derfynau amser priodol?

Ydynt		
Nac ydynt		
Os nad ydynt, pam?		

7. Mae Erthygl 8(h) yn gwneud eithriad ar gyfer llochesi camdrin domestig. Ydy hyn yn briodol? Beth yw'r safon cywir?

Ydy		
Nac ydy		
Os nad ydy, pam?		

Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) 2015

8. Ydych chi'n cytuno â'r weithdrefn ddrafft ar yr hawl i ofyn am adolygiad?

Ydwyf

Nac
ydwyf

Os nad ydych, pam?

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch y rheoliadau drafft?

Oes

Nac
oes

Os na, pam?